Deputy Vice-Chancellor
Professor Elizabeth Treasure
Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Elizabeth Treasure

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Cardiff University
Main Building
Park Place
Cardiff CF10 3AT
Wales UK
Tel Ffôn +44(0)29 2087 4607
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd CF10 3AT
Cymru, Y Deyrnas Unedig

13th October 2016

Dear Stand Alone,

Cardiff University pursues a progressive widening participation and access to education agenda, we proactively seek applications from students of all backgrounds. The University is committed to breaking down the barriers students may face to maximise their educational potential. Cardiff University has a well-established reputation for providing outstanding support for students who have been in care. In 2012, Cardiff University extended the support available to care leavers to other young students who have no family support.

Many of the barriers that estranged students encounter are similar to care leavers. However, many of the issues are compounded by the fact that they don't have any support from Social Services as care leavers do. In our experience, it is usually through informal support from friends and other family members and their own resilience that the student has managed to get to university.

By giving dedicated support to estranged students, we as a University believe we can make a difference in breaking down some of these barriers and improve the experience of estranged students throughout their journey at Cardiff University. We are delighted to publicly commit to the Stand Alone Pledge for these reasons.

Please find enclosed a brief outline of our current support provision for estranged students and our aims for the next two years.

Our dedicated member of staff taking responsibility for supporting estranged students and overseeing the University's commitment to the Stand Alone Pledge is Einir England, (EnglandE1@cardiff.ac.uk 029 2087 4787).

Yours sincerely

Professor Elizabeth Treasure
Deputy Vice-Chancellor

The Queen's Anniversary Prizes 2013
INVESTORS IN PEOPLE
Registered Charity, 1136855 Elusen Gofrestredig

**Outline of Cardiff University current support provision for estranged students**

The foundation of our support package is having a dedicated member of staff to act as the first point of contact for student with no family support, third party organisations and University staff working with estranged students. Einir England in the Advice and Money Team in Student Support was identified as the dedicated member of staff. The dedicated contact is well placed in the Student Support Centre to signpost students to other services such as academic study skills, disability and mental health related support and emotional support from the Counselling Health and Wellbeing Team.

**Finance**

In 2012 the Care Leaver Bursary was extended to estranged students. This is a total of £3,000 for a typical three year course for young students who are irreconcilably estranged from their parents before they started their course.

One major difficulty faced by estranged students is being able to prove their independent status to their funding body in order to be assessed as independent students and receive maximum funding. Our dedicated contact specialises in student funding advice and can liaise with Student Finance on behalf of a student to assist them to make a case for independent status.

Estranged students are also given priority for the Financial Assistance Programme, especially during the long summer vacation period to assist with their accommodation costs.

**Accommodation**

In order to negate the threat of homelessness for estranged students in vacation periods, 12 month accommodation is available in university residence to estranged students.

Estranged students face challenges in securing private accommodation due to having no one to act as a guarantor. Cardiff University operates a Guarantor Scheme for certain vulnerable students and estranged students are eligible for the scheme. This means the University acts as a guarantor for estranged students to secure accommodation in the private sector.

**Mental Health and Wellbeing**

Estranged students who receive support from the dedicated member of staff are made aware of the University Counselling Health and Wellbeing Service at every possible opportunity.

During 2016/17 we will pilot a therapeutic group, facilitated by the Counselling, Health and Wellbeing Service, targeting students without family support. The intention is to create a supportive environment where students can meet other students without family support and receive emotional support.

**Outreach and Transition**

We recognise that raising awareness of the support available to applicants is important to ensure information is easily available for students to access support at the right time. We have recently created a video highlighting the support available that we share on our social media accounts and the University website.

**Our aims for the next 2 years**

Identifying estranged students is problematic. There is no avenue to disclose before they start their course, through UCAS for example. Raising awareness of the support is imperative in encouraging more students to seek support. Over the next 2 years we will work on improving information and guidance on the University website for prospective students and the public. We will also work to include information about estranged student support in training for Personal Tutors.

We aim to foster links with local charities, foyer and homeless shelters to reach those living without support from their families.

Cardiff University Careers and Employability Service has been commissioned to introduce the new GO Wales: Achieve through Work Experience programme for 2016/17 – 2018-19 academic years. The aim of the programme is to reduce the number of students leaving HE who are at risk of becoming NEET (Not in Education, Employment or Training). The target cohort is students aged 18 – 24 years who face particular barriers that include work limiting health conditions, from a BME background, who have caring responsibilities, who have been in care and who are from less affluent backgrounds (measured by low he participation neighbourhood). The team will work with all kinds of employers to create tailored, flexible work experience opportunities designed to fit around students' other commitments. The dedicated contact for estranged students will work closely with the new GO Wales team to encourage eligible estranged student to participate.

Over the next two years we will also be exploring dedicated study skills provision with our Academic Skills Centre for vulnerable groups such as estranged students.

Deputy Vice-Chancellor
Professor Elizabeth Treasure
Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Elizabeth Treasure

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Cardiff University
Main Building
Park Place
Cardiff CF10 3AT
Wales UK
Tel Ffôn +44(0)29 2087 4607
www.cardiff.ac.uk
Prifysgol Caerdydd
Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd CF10 3AT
Cymru, Y Deyrnas Unedig

3 November, 2016

Annwyl Stand Alone,

Mae Prifysgol Caerdydd am ehangu cyfranogiad a mynediad at addysg, ac rydym yn mynd ati i ddenu ceisiadau gan fyfyrwyr o bob cefndir. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau y gall myfyrwyr eu hwynebu er mwyn iddynt fanteisio'n llawn ar eu gallu addysgol. Mae Prifysgol Caerdydd wedi hen ennill ei phlwyf fel sefydliad sy'n rhoi cefnogaeth ragorol i fyfyrwyr sydd wedi bod o dan ofal. Yn 2012, ehangodd Prifysgol Caerdydd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal i fyfyrwyr ifanc eraill sydd heb gefnogaeth deuluol.

Mae llawer o'r rhwystrau sy'n wynebu myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn debyg i'r rhai sy'n gadael gofal. Ond mae llawer o'r problemau'n fwy difrifol oherwydd nad oes ganddyn nhw gefnogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol fel sydd gan y rhai sy'n gadael gofal. O'n profiad ni, cymorth anffurfiol gan ffrindiau ac aelodau eraill o'r teulu a'u gwydnwch eu hunain sy'n gyfrifol fod y myfyriwr wedi llwyddo i gyrraedd y brifysgol.

Drwy roi cefnogaeth benodol i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, rydym ni fel Prifysgol yn credu y gallwn chwalu rhai o'r rhwystrau hyn a gwella profiad y myfyrwyr hyn drwy gydol eu hamser ym Mhrifysgol Caerdydd.

Rydym yn falch iawn o ymrwymo i Adduned Stand Alone am y rhesymau hyn.
Amgaeaf fraslun o'r gefnogaeth a roddir ar hyn o bryd i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, a'n nodau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Einir England yw ein haelod penodedig o staff sy'n gyfrifol am gefnogi myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, a hi sy'n goruchwylio ymrwymiad y Brifysgol at Adduned Stand Alone (EnglandEl@caerdydd.ac.uk 029 2087 4787).

Yn gywir,

Yr Athro Elizabeth Treasure, Rhag Is-Ganghellor

THE QUEEN'S ANNIVERSARY PRIZES 2013

INVESTORS IN PEOPLE

Registered Charity 1136855 Elusen Gofrestredig

**Amlinelliad o'r cymorth y mae Prifysgol Caerdydd yn ei roi ar hyn o bryd i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio**

Hanfod ein pecyn cymorth yw cael aelod penodedig o staff sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer myfyrwyr sydd heb unrhyw gymorth teuluol. Ceir hefyd gefnogaeth gan gyrff trydydd parti a staff y Brifysgol sy'n gweithio gyda myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio. Cafodd Einir England yn y Tîm Cyngor ac Arian ei nodi fel yr aelod penodedig o staff. Gan fod yr aelod penodedig yn gweithio yn y Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr, mae mewn sefyllfa i allu cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cefnogi eraill mewn meysydd fel sgiliau astudio academaidd, anabledd, cefnogaeth sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn ogystal â chefnogaeth emosiynol gan y Tîm Cwnsela, Iechyd a Lles.

**Cyllid**

Yn 2012, cafodd y Fwrsariaeth wrth Adael Gofal ei ehangu i gynnwys myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio. Mae'n werth cyfanswm o £3,000 ar gyfer cwrs tair blynedd nodweddiadol i fyfyrwyr ifanc sydd wedi ymddieithrio'n gyfan gwbl oddi wrth eu rhieni cyn iddynt ddechrau eu cwrs.
Un anhawster mawr mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio'n ei wynebu yw gallu profi eu statws annibynnol i'r corff cyllido er mwyn cael eu hasesu'n fyfyrwyr annibynnol a derbyn pob ceiniog sydd ar gael. Mae ein aelod staff penodedig yn arbenigo mewn rhoi cyngor am gyllid myfyrwyr a gall gysylltu â Chyllid Myfyrwyr ar ran myfyriwr i'w helpu i gyflwyno achos dros gael statws annibynnol.

Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y Rhaglen Cymorth Ariannol hefyd, yn enwedig er mwyn eu helpu gyda chostau llety yn ystod gwyliau'r haf.

**Llety**

Er mwyn atal myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio rhag mynd yn ddigartref yn ystod gwyliau, mae llety 12 mis ar gael yn neuaddau preswyl y Brifysgol ar eu cyfer.

Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn wynebu heriau o ran cael gafael ar lety preifat gan nad oes unrhyw un sy'n gallu bod yn warantwr ar eu rhan. Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithredu Cynllun Gwarantwr ar gyfer rhai myfyrwyr sy'n agored i niwed, ac mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn gymwys ar gyfer y cynllun. Golyga hynny bod y Brifysgol yn gweithredu fel gwarantwr i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio er mwyn iddyn nhw allu cael llety yn y sector preifat

**Iechyd Meddwl a Lles**

Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio sy'n cael cefnogaeth gan aelod penodedig o staff, yn cael gwybod am Wasanaeth Cwnsela, Iechyd a Lles y Brifysgol ar bob cyfle posibl.

Yn ystod 2016-17, byddwn yn treialu grŵp therapiwtig, wedi'i hwyluso gan y Gwasanaeth Cwnsela, Iechyd a Lles, a bydd yn targedu myfyrwyr sydd heb gefnogaeth deuluol. Y bwriad yw creu amgylchedd cefnogol lle gall myfyrwyr gwrdd â myfyrwyr eraill sydd heb gefnogaeth deuluol fel eu bod yn cael cefnogaeth emosiynol.

**Gwaith Allanol a Phontio**

Mae codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i ymgeiswyr yn bwysig i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i fyfyrwyr i'w galluogi i gael gafael ar gymorth ar yr adeg gywir. Yn ddiweddar gwnaethom greu fideo yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael; cymorth rydym yn ei rannu ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Brifysgol.

**Ein nodau dros y 2 flynedd nesaf**

Mae dod o hyd i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn anodd. Does dim llwybr clir i'w canfod cyn iddynt ddechrau eu cwrs, drwy UCAS er enghraifft. Mae codi ymwybyddiaeth o'r cymorth yn hanfodol i annog mwy o fyfyrwyr i geisio cymorth. Dros y 2 flynedd nesaf byddwn yn gweithio ar wella gwybodaeth a chanllawiau ar wefan y Brifysgol i ddarpar fyfyrwyr a'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn gweithio i gynnwys gwybodaeth am gymorth i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio mewn hyfforddiant i Diwtoriaid Personol.

Rydyn ni'n gobeithio meithrin cysylltiadau ag elusennau lleol, llety cyntedd a llochesi i bobl ddigartref i gyrraedd y rheini sy'n byw heb gymorth gan eu teuluoedd.

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Caerdydd wedi'i gomisiynu i gyflwyno rhaglen newydd gan GO Wales, Cyflawni trwy Brofiad Gwaith, ar gyfer blynyddoedd academaidd 2016/17 - 2018/19. Nod y rhaglen yw lleihau nifer y myfyrwyr sy'n gadael AU sydd mewn perygl o ddod yn NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Y grŵp targed yw myfyrwyr 18-24 oed sy'n wynebu rhwystrau penodol gan gynnwys cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio, cefndir Du neu Leiafrifol Ethnig, cyfrifoldebau gofalu, a phobl sydd wedi bod mewn gofal ac sydd o gefndiroedd mwy difreintiedig (mesurir hyn yn erbyn cyfranogiad y gymdogaeth dan sylw). Bydd y tîm yn gweithio gyda phob math o gyflogwyr i greu cyfleoedd profiad gwaith hyblyg, wedi'u teilwra i ffitio o amgylch ymrwymiadau eraill y myfyrwyr. Bydd yr unigolyn cyswllt ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio yn gweithio'n agos gyda thîm newydd GO Wales i annog myfyrwyr cymwys sydd wedi ymddieithrio i gymryd rhan.

Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn hefyd yn ymchwilio i'r ddarpariaeth o sgiliau astudio pwrpasol gyda'n Canolfan Sgiliau Academaidd ar gyfer grwpiau agored i niwed fel myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio.